Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Mesur Arfaethedig Addysg (Cymru)**

**Dyddiad:** **27 Ebrill 2009**

**Gan:** **Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

---

Hoffai'r Aelodau nodi y caiff Mesur arfaethedig Addysg (Cymru) ei osod heddiw, 27 Ebrill 2009. Byddaf yn gwneud Datganiad Deddfwriaethol yn y cyfarfod llawn yfory, 28 Ebrill 2009, i gyflwyno'r Mesur.

Bydd y Mesur hwn yn rhoi hawliau i blant a phobl ifanc wneud apeliadau anghenion addysgol arbennig (AAA) a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys AAA Cymru (y Tribiwnlys). Mae'n diwygio'r gyfraith i rieni yng Nghymru wneud apeliadau a hawliadau i'r Tribiwnlys, fel y nodir yn Neddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001.

Mae'r Mesur:

- yn darparu ar gyfer peilot deddfwriaethol cychwynnol a chyfnod gwerthuso, lle bydd modd i blant mewn ardaloedd penodol wneud apeliadau a hawliadau i'r Tribiwnlys; ac mae hefyd yn caniatáu i'r Tribiwnlys gofnodi a chlywed apeliadau a hawliadau;

- o ganlyniad yn rhoi'r hawl i blant yng Nghymru apelio a hawlio i'w Tribiwnlys;

- yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) hysbysu plant am eu hawliau apelio;

- yn rhoi dyletswydd ar AALlau i wneud trefniadau ar gyfer Gwasanaethau Partneriaeth a Datrys Anghydfod, a hysbysu plant am eu hawliau i'r rhain;

- yn rhoi dyletswydd newydd ar AALlau i roi mynediad i wasanaethau eiriolaeth annibynnol sy'n gallu gwrando ar safbwyntiau a phryderon plant, a'u lleisio. Bydd disgwyl i eiriolwyr gynorthwyo plant mewn prosesau datrys, paratoi achosion apelio/hawlio a'u cefnogi neu'u cynrychioli mewn gwrandawiadau;

- yn dileu swyddogaethau gofynion caniatâd Gweinidog y Goron mewn perthynas â rheoliadau ar awdurdodaeth y Tribiwnlys ynghylch anghenion addysgol arbennig a gwahaniaethu ar sail anabledd;

- yn rhoi grym i Weinidogion Cymru wneud offerynnau statudol i reoleiddio awdurdodaeth y Tribiwnlys ynghylch Gwahaniaethu ar Sail Anabledd;

- yn rhoi cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru i ystyried cwynion ynghylch diffyg gweithredu Gorchmynion Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

Caiff y Mesur ei ddefnyddio hefyd fel ffordd o ddiwygio deddfwriaeth gyfredol ynghylch y Cwricwlwm yng Nghymru yn dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ar 1 Awst 2008 ar gyfer disgyblion 3-4 oed. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno fesul cam ac fydd wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn 1 Awst 2011. Felly, mae'r Cyfnod Sylfaen yn berthnasol i'r disgyblion canlynol:

- 3-4 oed o 1 Awst 2008;
- 3-5 oed o 1 Awst 2009;
- 3-6 oed o 1 Awst 2010;
- 3-7 oed o 1 Awst 2011.

Ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llawn ar 1 Awst 2011, bydd yn cymryd lle cyfnod allweddol cyntaf y Cwricwlwm Cenedlaethol, sy'n cynnwys disgyblion 5 i 7 oed ar hyn o bryd. O ganlyniad, rhaid gwneud y newid deddfwriaethol canlynol:

- dileu pob cyfeiriad at y "cyfnod allweddol cyntaf" o'r llyfr statud o 1 Awst 2011;
- newid "Foundation Stage" i "Foundation Phase". Newid enw yn unig yw hyn ac nid yw'n newid y math o ddarpariaeth addysgol yn y cyfnod sylfaen. "Foundation Phase" yw'r term a ddefnyddir gan ymarferwyr ac yng nghyhoeddiadau Llywodraeth y Cynulliad, a'r farn yw y dylid diwygio deddfwriaeth i gyd-fynd â'r term sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.